Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

23 Mehefin 2025

Annwyl Gyfaill

**Ymgynghoriad: Bargeinion Dinesig a Thwf**

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Mae cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg yn un o amcanion craidd strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu economi ffyniannus, gynaliadwy er mwyn cynnal a chryfhau'r cymunedau hynny lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Yr her yw sicrhau fod gan bobl swyddi o ansawdd da, gyrfaoedd deniadol a chartrefi er mwyn iddynt allu aros, dychwelyd, neu ymgartrefu yn y cymunedau hynny. Mae'r bargeinion dinesig a thwf yn berthnasol iawn yn y cyd-destun hwn.

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn awgrymu bod twf poblogaeth yng Nghymru yn arafu a bod gostyngiad yn y boblogaeth oedran 15-64. Mae'r ffaith fod y tueddiadau hyn yn amlwg iawn yn yr ardaloedd hynny lle mae'r iaith Gymraeg ar ei chryfaf yn destun pryder. Mae colli pobl oedran gwaith yn cael effaith negyddol ar gynaliadwyedd yr ardaloedd yma, ac felly'n peryglu hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol naturiol. Fel y gwyddoch, mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 hefyd yn dangos gostyngiad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Er bod gostyngiad ym mwyafrif siroedd Cymru, mae'r gostyngiad mwyaf sylweddol i'w weld yn siroedd gorllewin Cymru, yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Mae'n rhesymol casglu bod perfformiad economaidd yr ardaloedd yma yn cyfrannu i'r diboblogi sy'n digwydd yno, a bod hynny yn cael effaith negyddol ar hyfywedd y Gymraeg.

I atal dirywiad y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn, rhaid  sicrhau ein bod yn cefnogi pobl i allu parhau, neu ddychwelyd, i fyw a gweithio yn y cymunedau hynny. Mae gweithgaredd y

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

bargeinion dinesig a thwf i adfywio'r economi yn yr ardaloedd hyn yn berthnasol iawn i'r ymdrech honno.

**Ystyried effeithiau penderfyniadau polisi o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch**

Ers haf 2024 mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar y cydbwyllgorau corfforedig, sy'n gweithredu'r bargeinion dinesig a thwf, i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Dylai'r gofyniad yma sicrhau fod y sefydliadau yn rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r Gymraeg wrth iddynt benderfynu ar gyfeiriad strategol yn y dyfodol. Dylai anghenion cymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr felly fod yn ganolog i benderfyniadau polisi fydd yn effeithio arnynt.

Mae esiamplau da o strategaethau presennol y bargeinion dinesig a thwf yn rhoi ystyriaeth i hyrwyddo'r Gymraeg, ac maent wedi ariannu prosiectau sy'n berthnasol i ddiwylliant Cymraeg ac sydd yn cynyddu'r cyfleoedd i'w defnyddio. Enghraifft dda o hyn yw datblygiad canolfan yr Egin yng Nghaerfyrddin, sy'n hyrwyddo statws y Gymraeg a'i diwylliant yn y dref, ac sy'n gartref i sefydliadau sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg fel S4C a'r Urdd. Dydyn ni ddim yn gwybod os yw ethos Cymraeg yr Egin o ganlyniad i amodau a osodwyd fel rhan o dderbyn nawdd gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Er hyn, rydym yn awyddus i weld mwy o brosiectau tebyg sy'n creu cyfleoedd economaidd trwy ddenu buddsoddiad mewn ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, tra ar yr un pryd yn creu cyfleoedd pellach i ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai'n ddefnyddiol petasai Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn gallu cwestiynu'r cydbwyllgorau a'r bargeinion dinesig a thwf ynghylch pa ystyriaeth maent wedi rhoi i anghenion cymunedau Cymraeg o fewn eu ffiniau.

**Strategaeth benodol ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch**

Yn ei adroddiad *Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg*, mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg (y Comisiwn) yn dadlau bod strategaethau a strwythurau datblygu economaidd presennol wedi eu datblygu heb feddwl rhyw lawer am anghenion cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl y Comisiwn nid yw polisïau datblygu economaidd prif ffrwd wedi cau'r bwlch Gwerth Ychwanegol Gros gyda gweddill y Deyrnas

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Unedig, ac mae angen ail feddwl pa fath o ymyraethau byddai'n cynnig y gwerth mwyaf i'r cymunedau yma.

Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth datblygu economaidd sy'n mynd i'r afael ac anghenion yr ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn benodol. Yn ôl y Comisiwn, dylai'r strategaeth honno hyrwyddo dulliau datblygu economaidd sy'n canolbwyntio ar anghenion sylfaenol y cymunedau hynny. Rydyn ni'n cytuno ag asesiad y Comisiwn ac yn gefnogol o'r galw am strategaeth sy'n rhoi ffocws penodol ar anghenion economaidd yr ardaloedd yma. Yn ei ymateb i'r argymhelliad hwn, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ystyried hyn fel rhan o'r cyfnod oedi a myfyrio ar gyfer rhaglen ARFOR II. Rydyn ni'n meddwl y dylai swyddogion y bargeinion dinesig a thwf sy'n gweithredu mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fod yn rhan o unrhyw drafodaethau am ddatblygiad strategaethau economaidd penodol ar gyfer yr ardaloedd yma. Mae angen sicrhau bod y bargeinion dinesig a thwf yn cyfrannu'n uniongyrchol at lwyddiant y strategaethau economaidd hyn.

**Isadeiledd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch**

Dylid anelu i brif ffrydio anghenion yr ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gymaint â phosib o fewn cyfeiriad a gweithgaredd y bargeinion dinesig a thwf. Mae'n hanfodol bod anghenion cymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried pan mae prosiectau isadeiledd bargeinion dinesig a thwf yn cael eu datblygu. Mae datblygiadau mewn meysydd fel trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith ddigidol yn debygol o gryfhau cymunedau lle mae dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg, gan eu bod yn hwyluso bywydau'r bobl sy'n byw yno ac yn cynyddu eu gallu i gael mynediad at swyddi da. Dylai hynny yn ei dro helpu i greu amodau lle mae llai o bobl oedran gweithio yn teimlo eu bod angen gadael eu cymunedau er mwyn cael cyfleoedd bywyd gwell.

Yn yr un modd, gall datblygiadau adfywio trefol ddarparu'r tai sydd eu hangen ar gyfer pobl oed gwaith, a gwneud ein trefi yn llefydd deniadol i fyw ynddynt. Er hynny, mae'n rhaid bod yn wyliadwrus wrth ddatblygu tai newydd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, oherwydd gallai datblygu gormod o dai newydd arwain at lefelau uchel o fewnfudo a allai gael effaith negyddol ar ddwysedd y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Dylai

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

hynny fod yn ystyriaeth wrth benderfynu ar leoliadau stadau mawr o dai bydd yn cael eu hadeiladu ar gyfer gweithluoedd datblygiadau economaidd y bargeinion dinesig a thwf. Ateb anghenion lleol sydd ei angen yn yr ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, yn hytrach na ateb gofynion polisïau cenedlaethol neu ranbarthol.

**Yr economi werdd, Cymraeg 2050 a chryfhau cymunedau Cymraeg**

Mae cysylltiad rhwng yr angen i gefnogi ffyniant economaidd cymunedau Cymraeg, a'r cyfleoedd cyffrous sy'n bodoli yn sgil datblygiadau economaidd sero net. Mae potensial i economi ardaloedd gorllewinol Cymru ymgryfhau yn sgil cyfleodd economaidd y trawsnewidiad gwyrdd, gan ei bod yn meddu ar lawer o adnoddau naturiol perthnasol. Mae'n dda gweld bod y bargeinion dinesig a thwf wedi bod yn buddsoddi mewn prosiectau ynni carbon isel. Enghraifft o arfer dda y buasem yn falch o'i weld yn cael ei efelychu mewn mannau eraill oedd buddsoddiad o £9m gan Uchelgais Gogledd Cymru i ehangu prosiect ynni llanw Morlais sydd wedi ei arwain gan Fenter Môn, sydd hefyd yn gweithredu yn y Gymraeg ac er budd y Gymraeg a chymunedau Môn.

Mae gorgyffwrdd amlwg rhwng rhai o amcanion creiddiol strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a'r prosiectau sydd gan y bargeinion dinesig a thwf ar gyfer datblygiadau sero net. Dylai ystyried y cysylltiadau hyn ac egluro rôl allweddol y sector sgiliau yng Nghymru yn y cyd-destun hwn fod yn flaenoriaeth i'r bargeinion dinesig a thwf. Dylai'r Llywodraeth a'r bargeinion dinesig a thwf fuddsoddi mewn datblygu'r economi werdd mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae angen gwella'r sail dystiolaeth er mwyn cynllunio'n well ac er mwyn helpu pobl leol i fanteisio ar y swyddi all ddeillio o drawsnewidiad yr economi werdd. Mae canolbwyntio ar integreiddio agendau polisi cysylltiedig (er enghraifft, y Gymraeg, yr economi werdd, ac amaethyddiaeth) yn un ffordd o wneud y mwyaf o fuddsoddiad ac o gael y buddion fwyaf posib.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

**Llwybrau addysg a hyfforddiant iaith Gymraeg lleol**

Er mwyn manteisio ar y potensial sy'n bodoli i gefnogi ffyniant economaidd cymunedau Cymraeg, mae'n hanfodol bod llwybrau addysg a hyfforddiant addas ar gael yn lleol, a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, os oes gan ardal y potensial ar gyfer datblygiad ynni gwynt, yna mae angen sicrhau bod yna lwybrau hyfforddi i bobl leol fedru manteisio ar hyn, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae felly angen i'r bargeinion dinesig a thwf weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau fel y Llywodraeth, darparwyr addysg, y Comisiwn Addysg Drydyddol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod hynny yn ei le. Yn ogystal, dylai cyrsiau hyfforddi ar gyfer diwydiannau penodol gael eu darparu mor agos â phosib at yr ardal honno, er mwyn hwyluso pobl i aros a byw yn eu cymunedau.

**Grymuso cymunedau Cymraeg i gadw'r budd yn lleol**

Roedd ymgynghoriad diweddar y Llywodraeth ar sgiliau'r sector sero net yn cyfeirio at wneud y mwyaf o berchnogaeth leol, gan gadw manteision economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cytuno bod modelau o berchnogaeth leol yn ffordd effeithiol o greu swyddi da mewn ardaloedd Cymraeg. Mae ganddynt hefyd y potensial i gyfrannu at economi'r ardal leol. Rydym yn ymwybodol o sawl menter gymunedol yn y sector cynhyrchu trydan a gwres sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac sy'n cyfrannu at yr economi leol. Yn ein sgyrsiau ag Egni Cymunedol Cymru er enghraifft, mae Partneriaeth Ynni Ogwen ac Ynni Sir Gar yn ymddangos fel modelau esiampl arfer dda o sut i wneud y mwyaf o berchnogaeth leol a chefnogi'r Gymraeg yn rhagweithiol. Rydym yn ymwybodol bod Tyfu Canolbarth Cymru wedi darparu cefnogaeth i brosiectau fel Ynni Teg, sy'n datblygu ffermydd solar a gwynt ar raddfa fach gyda pherchnogaeth leol.

Mae llawer o ardaloedd arfordirol Gorllewin Cymru yn cynnwys cymunedau gyda'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg, a gallai'r boblogaeth honno fanteisio ar ddatblygiadau yn y sector ynni morol, fel y datblygiad ffermydd gwynt newydd yn y Môr Celtaidd oddi ar arfordir Sir Benfro a de-orllewin Lloegr. Dylai'r bargeinion dinesig a thwf fynd ati i ddysgu gan fentrau fel Ynni Ogwen, Ynni Sir Gar a Menter Môn er mwyn deall pa

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

sgiliau oedd yn hanfodol i'w llwyddiant, a pha sgiliau y maen nhw'n rhagweld y byddant eu hangen yn y dyfodol. Mae Ynni Cymunedol Cymru wedi lansio gweithgor ar gydberchnogaeth, gan ddod â datblygwyr masnachol a grwpiau ynni cymunedol ynghyd i rannu gwybodaeth, mynd i'r afael â rhwystrau, a datblygu arferion gorau. Gallai ymgysylltu gyda'r gweithgor hwnnw fod yn ffordd effeithiol o ddysgu am anghenion sgiliau ar lefel leol, ac i feddwl sut y gallai'r bargeinion dinesig a thwf gefnogi cymunedau Cymraeg eraill i ail adrodd llwyddiannau'r grwpiau ynni cymunedol sy'n bodoli ac yn arloesi eisoes.

**Pwysigrwydd gweithleoedd Cymraeg a'r Cynnig Cymraeg**

Mewn ardaloedd lle mae dwysedd is o siaradwyr Cymraeg mae llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd, felly mae'n hanfodol bod siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol yn parhau i ddefnyddio'r iaith wrth fynd ymlaen yn eu haddysg neu hyfforddiant, ac i fyd gwaith. Yr her yw cynnal sgiliau Cymraeg ein pobl ifanc a throi siaradwyr yn ddefnyddwyr tymor hir. Rhan allweddol o sicrhau'r dilyniant ieithyddol hwn yw galluogi pobl i weithio yn y Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae canolbwyntio ar gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle â'r potensial i ddylanwadu ar ganfyddiad pobl o bwysigrwydd yr iaith, ar gyfleoedd i fagu hyder ieithyddol, ac ar ddefnydd ehangach o'r Gymraeg yn y gymuned. Mae cyfle gwirioneddol gan y bargeinion dinesig a thwf i gyfrannu at yr ymdrech yma trwy hyrwyddo sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ac yn galluogi pobl i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy hynny gefnogi strategaeth *Cymraeg 2050* y Llywodraeth.

Gall busnesau preifat a sefydliadau trydydd sector weithio gyda ein tîm Hybu er mwyn derbyn y [Cynnig Cymraeg], sef cydnabyddiaeth swyddogol gan y Comisiynydd ar gyfer sefydliadu sydd wedi gweithio gyda ni er mwyn llunio Cynllun Datblygu'r Gymraeg. Mae hyn yn rhoi cyfle i sefydliadau ddatblygu eu gwasanaethau Cymraeg dros amser, ac i ddangos i'r cyhoedd eu bod yn ymfalchïo yn y Gymraeg. Mae dros 160 o sefydliadau wedi derbyn y Cynnig Cymraeg erbyn hyn, ac mae'r ffigwr yma'n tyfu'n fisol. Byddai annog sefydliadau sy'n derbyn nawdd gan y bargeinion dinesig a thwf i ennill cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg yn ffordd effeithiol o gyfrannu tuag at yr ymdrech i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio eu Cymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi yn eich ymgynghoriad, ac rwy'n hapus i fy swyddogion gwrdd â chi i drafod ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones

**Comisiynydd y Gymraeg**

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales